

Y sail resymegol dros gymhwyso egwyddor sybsidiaredd wrth ddiwygio cwricwla a'i ganlyniadau anfwriadol

Nigel Newton*

Prifysgol Caerdydd, DU

Yn dilyn tueddiadau ar draws y byd datblygedig i ddatganoli pŵer a chyfrifoldeb dros wasanaethau cyhoeddus i asiantaethau mwy lleol, mae diwygiadau i gwricwla mewn nifer o wledydd wedi'u nodweddu gan bolisiau sydd â'r bwriad o gynyddu galluedd a phroffesiynoldeb athrawon fel modd i sicrhau newid llwyddiannus. Yng Nghymru, mae'r dull hwn wedi'i hyrwyddo drwy fabwysiadu egwyddor sybsidiaredd. Cyflwynir pedwar rheswm cydgyssylltiedig dros ei defnyddio wrth ddatblygu cwricwlwm newydd. Gellir crynhoi'r rhain fel a ganlyn: y bydd yn hybu proffesiynoldeb athrawon; yn sbarduno gwelliannau mewn addysgu; yn gwneud ysgolion yn fwy ymatebol i anghenion lleol a chenedlaethol; yn arwain at fwy o hyder yn y diwygiadau. Mae'r papur hwn yn edrych ar y graddau y mae'r pedwar cyfiawnhad hyn wedi'u hadlewyrchu ym mhrofiadau athrawon o ddatblygu'r cwricwlwm mewn ysgolion sy'n cymryd rhan yn y broses sy'n arwain ar ddiwygio'r cwricwlwm. Mae'n dangos, drwy dynnu ar ddata o 10 cyfweiliad manwl lled-strwythuredig ac arolwg o fwy na 600 o athrawon, fod croeso cyffredinol i egwyddor sybsidiaredd ond nad yw'n glir o bell ffordd a yw'n bodloni'r meini prawf a gyflwynwyd i'w chyfiawnhau. Trafodir cwestiynau ynghylch cymhwyso egwyddor sybsidiaredd at ddiwygio cwricwla.

Allweddairiau: cwricwlwm; diwygio'r cwricwlwm; sybsidiaredd; addysg Cymru; datblygu athrawon

Cyflwyniad: egwyddor sybsidiaredd a diwygio'r cwricwlwm yng Nghymru

Un o'r prif elfennau ym mhroses diwygio'r cwricwlwm a ddechreuodd yng Nghymru yn 2015 yw cymhwyso egwyddor sybsidiaredd. Mae hanes hir i'r term hwn, yn cynnwys y defnydd ohono yn athrawiaeth yr Eglwys Gatholig yn y ganrif ddiwethaf mewn perthynas ag ymdrechion yr eglwys i wahaniaethu rhwng y gweithredoedd y mae'n rhaid i'r unigolyn wneud penderfyniadau moesol yn eu cylch a'r gweithredoedd y dylid eu hildio i awdurdod y gymuned (Chaplin, 1993). Yn fwy diweddar, mabwysiadwyd yr egwyddor yng Nghytuniad Maastricht (1992), gan ei hymgorffori yng nghyfraith Ewrop fel modd i wahaniaethu rhwng y cyfreithiau y gall y genedl-wladwriaeth barhau i'w gwneud a'r cyfreithiau y bydd angen eu sefydlu o fewn yr Undeb Ewropeaidd (UE). Yn y ddau achos, y nod oedd parchu a meithrin cyfrifoldeb, ar lefel y person

*Awdur gohebol. WISERD, 38 Parc y Plas, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3BB, Cymru, DU. Ebo: Newtonn2@cardiff.ac.uk

neu'r wladwriaeth, gan gydnabod bod meysydd ymarfer a chyfraith lle'r oedd yn fuddiol i gorff cymdeithasol uwch ymyrryd er mwyn atal tensiynau a chwalfeydd ar lefel gymunol. Mae'r egwyddor wedi tynhau ei gafael drwy'r prosesau datganoli yn y Deyrnas Unedig. Er hynny, nid yw'n cael ei diffinio'n glir mewn llawer achos ac fe all arwain at effeithiau niweidiol: er enghraifft, mae Gray *et al.* (2018) wedi disgrifio'r modd y mae uchelgeisiau Ewropeaidd i greu safonau addysg cyffredin ledled Ewrop wedi cael eu llesteirio gan sybsidiaredd. Mae Constantin (2008) ac Öberg (2017) yn dweud bod y cysyniad yn broblemus, hyd yn oed o fewn cyfraith yr UE, am nad yw wedi'i ddiffinio'n glir. Er gwaethaf yr anawsterau hyn, mae wedi dod yn egwyddor ganolog mewn polisi sy'n ceisio diwygio'r cwricwlwm yng Nghymru.

Sbardunwyd y camau i ddiwygio system addysg Cymru gan bryderon ynghylch ansawdd addysg a ysgogwyd gan berfformiad y wlad yng ngwerthusiad Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr (PISA) yn 2011. Roedd y gwerthusiad hwn wedi arwain at newidiadau mewn polisi ar y system ysgolion ac at gomisiynu adolygiad gan yr OECD o'r ddarpariaeth addysg yng Nghymru. Yn yr adroddiad a ddilynodd (OECD, 2014) nodwyd pedwar maes i'w gwella: roedd angen gwella addysgu gwahaniaethol; roedd angen mwy o ddatblygu proffesiynol ar athrawon ac arweinwyr ysgol; roedd angen mwy o gydlyniant rhwng asesu a gwerthuso; ac roedd angen proses diwygio fwy cynaliadwy i gynnwys yr holl randdeiliaid.

Ym Mawrth 2014, comisiynwyd Graham Donaldson gan Lywodraeth Cymru i gynnal adolygiad o system addysg Cymru o'r Cyfnod Sylfaen (3 oed) hyd at ddiwedd addysg uwchradd (16 oed). Roedd yr adolygiad i ganolbwyntio ar y cwricwlwm ac ar y prosesau asesu sydd ar waith yng Nghymru. Cyhoeddwyd yr adroddiad yn Chwefror 2015 (Donaldson, 2015), a nodwyd yn y cyflwyniad iddo ei fod yn ymateb i ganfyddiadau'r OECD ac i bryderon mwy cyffredinol ynghylch gorlenwi'r cwricwlwm a'r canfyddiad o ddiffyg ymateb gan addysg ysgolion i newidiadau mewn cymdeithas ehangach a gofynion cyflogaeth (gan gyfeirio yma at Gydffederasiwn Diwydiant Prydain). Derbyniwyd argymhellion Donaldson yn llawn gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau ar y pryd, Huw Lewis, yn y Cynulliad Cenedlaethol, ac yn Hydref 2015 cawsant eu cynnwys mewn fframwaith polisi newydd ar y cwricwlwm. Ochr yn ochr â hyn, cafwyd ymrwymiad i ddatblygu proffesiynoldeb athrawon (y Fargen Newydd), i adolygu'r dull o werthuso perfformiad ysgolion (yn cynnwys rôl y gwasanaeth arolygu ysgolion, Estyn) ac i ddatblygu cymwysterau priodol.

Dywedodd Donaldson fod ei gynigion yn "radical a phellgyrhaeddol". Mae'r argymhellion yn dechrau drwy bennu pedwar diben craidd a chwe Maes Dysgu a Phrofiad, wedi'u hategu gan dri chyfrifoldeb trawsgwricwlaidd sy'n ymwneud â llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol (gweler Tabl 1). Mewn gwaith dilynol ar ddatblygu'r cwricwlwm, mae datganiadau o'r 'Hyn sy'n Bwysig' wedi'u cynnwys sy'n disgrifio cynnwys y Meysydd Dysgu a Phrofiad. Mae'r rhain yn mynegi cysyniadau sy'n gysylltiedig â'r Meysydd Dysgu a Phrofiad ac maent wedi'u datblygu gan athrawon sy'n arbenigwyr pwnc sydd wedi ceisio eu cydlynu â'r pedwar diben. Dywedir eu bod yn adlewyrchu'r profiadau, gwybodaeth a sgiliau y dylai plant ddod ar eu traws drwy gydol eu haddysg. Mae'r pedwar diben i fod i gael eu harfer gan ddisgyblion tra byddant yn yr ysgol, yn hytrach na'u gweld yn ddeilliannau i'w cyflawni erbyn diwedd eu cyfnod o addysg (Llywodraeth Cymru, 2015). Mae 'Camau Cynnydd' wedi'u hysgrifennu hefyd sy'n dangos lefelau ymgysylltu a deall ar

Tabl 1. Dibenion a meysydd dysgu a phrofiad y Cwricwlwm i Gymru

<p>Pedwar diben y Cwricwlwm i Gymru yw y bydd plant a phobl ifanc yn datblygu i fod yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> ● ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes ● cyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith ● dinasyddion egwyddorol, gwybodus Cymru a'r byd ● unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas. <p>Chwe Maes Dysgu a Phrofiad y Cwricwlwm i Gymru yw:</p> <ul style="list-style-type: none"> ● Celfyddydau mynegiannol ● Iechyd a lles ● Dyniaethau ● Ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu ● Mathemateg a rhifedd ● Gwyddoniaeth a thechnoleg

gyfer pob un o'r datganiadau o'r 'Hyn sy'n Bwysig'. Mae'r rhain wedi'u bwriadu i fod yn farcwr ar siwrnai addysgol y myfyrwyr ac maent yn adlewyrchu dull o weithredu sy'n cydnabod y gall pob myfyriwr wneud cynnydd yn wahanol a hynny ar wahanol gyflymder.

Elfen ganolog yn y weledigaeth ar gyfer cyflawni'r diwygiadau hyn yw egwyddor sybsidiaredd. Yn ôl Donaldson, dylai'r broses diwygio fod:

wedi'i seilio ar sybsidiaredd: yn emryn hyder ym mhawb, gan gymell perchenogaeth briodol a phenderfyniadau gan y rheini sydd agosaf at y broses addysgu a dysgu.

Mewn nifer o ddogfennau a chyflwyniadau, gellir canfod sail resymegol dros y model hwn ar gyfer diwygio'r cwricwlwm (Donaldson, 2016a, 2016b). Mae'n ymddangos ei fod yn cynnwys y syniad o 'gynnwys rhanddeiliaid' i fwy o raddau a'i fod yn gysylltiedig â chysyniad 'arweinyddiaeth wasgaredig'. Mae pedwar budd cydgysylltiedig o'r diwygiadau y gellir dweud eu bod yn ffurfio sail resymegol dros y defnydd o fodel sybsidiaredd:

1. Hybu perchenogaeth ac adnewyddu proffesiynoldeb ymysg athrawon: cynyddu cyfrifoldeb athrawon, a welir fel modd i drechu gwrthwynebiad posibl i'r diwygiadau;
2. Adfywio addysgu: sbarduno atgyrchedd ymysg athrawon, a welir fel modd i wella ansawdd addysgu a dysgu mewn ysgolion;
3. Gwella'r gallu sydd gan ysgolion i ymateb i anghenion lleol a chenedlaethol: mae hyn yn cael ei weld yng nghyd-destun codi dyheadau disgyblion (yn enwedig disgyblion o gefndiroedd mwy difreintiedig) a chyflogadwyedd disgyblion yn gyffredinol;
4. Meithrin hyder yn y diwygiadau ymysg athrawon: bydd hyn yn sicrhau eu bod yn cymryd rhan yn y broses diwygio dros y tymor hir.

Mae'n ymddangos bod sybsidiaredd yn cael ei ddefnyddio fel offeryn rheoli; mae'n cael ei weld yn fodel ar gyfer cyflawni nodau penodol mewn modd dymunol gyda chyn lleied â phosibl o ganlyniadau anfwriadol. Mae edrych arno fel hyn yn gyfleus ond mae'n anwybyddu'r rhagdybiaethau am hunaniaeth, ymreolaeth a pherthnasoedd pŵer sydd ymhlwg yn y cysyniad. Hyd yn oed yng nghyd-destun cyfraith Ewropeaidd,

dangoswyd bod anwybyddu'r cydrannau athronyddol hyn yn peri problemau: er enghraifft, mae Chaplin (2014) yn dadlau bod ei weld yn ddim mwy nag egwyddor llywodraethu datganoledig yn anwybyddu ei ddimensiwn ontolegol, sy'n cydnabod bod plwraliaeth yn bwysig ar gyfer ffyniant dynol. Mae Carozza (2003) yn credu y dylem weld sybsidiaredd yn egwyddor sy'n ategu hawliau dynol, lle mae cydnabyddiaeth bod cyd-destunau a newid lleol yn effeithio ar unigolion a chymunedau mewn ffyrdd sy'n galw am benderfynu dynamig, rhwydd. Fodd bynnag, mae hefyd yn ei gwneud yn glir, am fod hawliau dynol yn ganolog i'r defnydd ohono, y bydd adegau pan fydd angen ymyrraeth gan awdurdod uwch:

Ni ellir deall sybsidiaredd fel rhywbeth sy'n golygu dim ond datganoli awdurdod i lefelau mwy lleol. Er ei fod yn mynegi'n glir fod rhagdybiaeth o blaid arfer rhyddid drwy ffurfiau llai a mwy lleol o gymdeithasiad dynol, mae'n ceisio cydbwysu'r syniad o beidio ag ymyrryd, a'r syniad o ymyrryd neu gynorthwyo. Felly mae'n galw am ystyriaeth ddifrifol i'r ffyrdd y gall awdurdodau mwy lleol fod yn llai galluog weithiau i sicrhau bod hawliau dynol yn cael eu diogelu heb gael ymyrraeth neu gymorth o'r tu allan.

Mae pennu'r meini prawf ar gyfer ymyrraeth ffederal o'r math hwn yng nghyfraith aelod-wladwriaethau wedi bod yn fater y mae llysoedd Ewropeaidd wedi mynd i'r afael ag ef dros lawer o flynyddoedd (Horsley, 2012).

Bydd angen eglurder ynghylch lefelau'r cyfarwyddo, penderfynu ac ymyrryd rhwng athrawon ac ysgolion, asiantaethau haen ganol (Estyn, Awdurdodau Rhanbarthol a Chonsortia), a Llywodraeth Cymru. Mae'r papur hwn yn ceisio cyfrannu i'r ddadl am y materion hyn drwy ddadansoddi'r rhan y mae athrawon yn ei chymryd mewn gwaith i ddatblygu'r cwricwlwm o fewn y model sybsidiaredd presennol mewn addysg yng Nghymru. Yn adran canfyddiadau'r papur, cyflwynir data ar gyfer ystyried a yw'r ffyrdd o gyfiawnhau sybsidiaredd yn cael eu gweld yn gadarnhaol gan athrawon sy'n ymwneud â'r diwygiadau. A yw sybsidiaredd yn arwain at y buddion arfaethedig? Ar ôl ystyried y dystiolaeth am y pedwar cyfiawnhad, mae'r adran trafod yn dychwelyd at y rhain er mwyn ystyried pa wersi y gellir eu dysgu am gymhwyso sybsidiaredd at y dasg o ddiwygio'r cwricwlwm. Bydd y papur yn dangos bod tensiynau rhwng yr hyn a welir yn nodau rheoli'r model diwygio a'r ffordd y mae'n ymddangos bod athrawon yn cael eu sbarduno yn eu gwaith ar ddatblygu'r cwricwlwm gan y pwerau cudd sydd mewn sybsidiaredd fel egwyddor sy'n gysylltiedig â hawliau'r unigolyn.

Dulliau

Mae'r canfyddiadau'n tynnu ar ddata a gasglwyd oddi wrth athrawon sy'n gweithio mewn ysgolion sy'n datblygu'r cwricwlwm newydd yng Nghymru. Mae'r ysgolion 'Arloesi' hyn wedi cael cyllid ychwanegol ac mae o leiaf un aelod staff wedi'i benodi'n 'Arweinydd Arloesi' a fydd yn cael cymorth a hyfforddiant sylweddol ac yn cyfrannu hefyd at ddatblygu polisi. Defnyddiwyd dulliau ymchwilio dilyniannol cymysg i ofyn am farn athrawon am wahanol agweddau ar y cwricwlwm newydd. Casglwyd y data mewn dau gam a gwneir defnydd o ddata o'r ddau gam yn y papur hwn.

Cam 1

Cynhaliwyd cyfweiliadau lled-strwythuredig â mwy na 30 o athrawon sy'n gysylltiedig â datblygu'r cwricwlwm, yn cynnwys Arweinwyr Arloesi. Cyfweiliadau ag unigolyn neu grŵp bach oedd y rhain ac roeddent wedi'u seilio ar gynllun cyf-weld cyffredin. Dadansoddwyd cynnwys thematig y cyfweiliadau drwy ddefnyddio NVivo ac, o ganlyniad i hyn, cafwyd map o ganfyddiadau arwyddocaol a gwybodaeth am y broses diwygio. Gosodwyd label cysyniadol ar ddatganiadau yn y cyfweiliadau, ar ffurf cod (neu nod), ac roedd y cod hwn yn cael ei osod ar unrhyw gynnwys a oedd yn rhannu'r un gwerth semantig neu werth tebyg a gododd yn ddiweddarach yn y cyfweiliadau. Edrychwyd yn fwy manwl ar y codau hyn wedyn a gwirio cywirdeb teitlau'r codau i sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r syniadau a fynegwyd o dan bob label. Roedd yn bosibl canfod topigau pwysig a oedd yn cael eu hadlewyrchu yn nifer y safbwyntiau neu bryderon cyffredin a oedd wedi'u mynegi gan yr athrawon a gyfweiliwyd. Roedd y codau hefyd yn ei gwneud yn haws chwilio am ddyfyniadau cynrychiadol i'w defnyddio.

Cam 2

Cynhaliwyd arolwg ymysg athrawon yn yr holl ysgolion Arloesi yng Nghymru a chafwyd ymatebion o ganlyniad i hyn gan 634 o athrawon sy'n gweithio mewn 81 o ysgolion gwahanol. Cyflwynwyd amrywiaeth o gwestiynau, rhai penodol a rhai penagored. Roedd yr arolwg hefyd yn casglu data demograffig. Dadansoddwyd y cynnwys thematig yn ogystal ag ystadegau a disgyrsiau. Y nod oedd archwilio themâu arwyddocaol a gododd o'r dadansoddiad cyntaf o ddata ansoddol a gafwyd o'r cyfweiliadau ag athrawon ochr yn ochr â data am set gynhwysfawr o gwestiynau, gyda sampl fwy o athrawon o'r holl ysgolion Arloesi. Drwy ystyried y data o'r arolwg ochr yn ochr â gwybodaeth a oedd ar gael am ysgolion athrawon, yn cynnwys canran y disgyblion a oedd yn gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim, roeddem yn gallu edrych ar ddylanwad posibl y cyd-destun a chefnidir athrawon ar agweddau at y cwricwlwm newydd. Fodd bynnag, i ddibenion y papur hwn, yr ymatebion a ddefnyddir yn bennaf yw'r ymatebion gan athrawon i gwestiynau penagored am eu gobeithion a'u hofnau mewn perthynas â'r diwygiadau.

Canfyddiadau*Proffesiynoldeb a pherchenogaeth*

Yr elfen gyntaf yn y sail resymegol dros y defnydd o sybsidiaredd ym mhroses diwygio'r cwricwlwm yng Nghymru yw y bydd proffesiynoldeb athrawon yn cael ei gryfhau, gan arwain at fwy o ymdeimlad o gyfrifoldeb a pherchenogaeth dros y broses diwygio. Mae gwrando ar athrawon a chynnwys eu syniadau wrth lunio a dehongli'r cwricwlwm yn cael ei weld yn fodd i wneud athrawon yn fwy parod i gymryd rhan yn y diwygiadau. Fodd bynnag, mae cydnabyddiaeth gynyddol i broffesiynoldeb

athrawon yn cael ei chysylltu â chyfleoedd mwy ar gyfer ymreolaeth a hyblygrwydd athrawon, rhywbeth sy'n codi cwestiynau ynghylch systemau atebolrwydd.

Teimlo bod eich llais yn cael ei glywed. Agwedd bwysig ar ymdeimlad newydd o broffesiynoldeb yw teimlo bod eich llais yn cael ei glywed mewn perthynas â phenderfyniadau a fydd yn effeithio ar amodau gweithio. Dywedodd nifer o 'Arweinwyr Arloesi' (AA), sef y rheini sydd â'r cysylltiad mwyaf uniongyrchol â'r broses datblygu, eu bod yn teimlo bod eu barn yn cael ei chymryd o ddifrif a'u bod yn gallu gwneud mwy o benderfyniadau ynghylch sut i addysgu:

Rwy'n credu bod ymddiried ym mhroffesiynoldeb athrawon i wybod bod y cwricwlwm y maen nhw'n ei lunio yn un iawn i'w hysgol yn rhywbeth sy'n uchel ar yr agenda nawr... Fodd bynnag, oherwydd y rhyddid roedden ni wedi sôn amdano'n gynharach i athrawon gael dylunio'r cynnwys, er mwyn cael y dull yn iawn, gallwch chi wneud pethau mewn partneriaeth â myfyrwyr a threwy gynnal deialog â nhw.

Ysgol Morien¹, AA uwchradd

Lefel yr ymwneud â materion y broses datblygu. Fodd bynnag, nid yw athrawon sydd heb gysylltiad uniongyrchol â'r broses, ond sydd mewn ysgolion Arloesi, yn gweld bod cadw'n wastad â'r datblygiadau yn brif flaenoriaeth iddynt. Mae eu hagwedd wedi'i chrynhof yn y sylw hwn gan un AA:

Does gennym ni ddim digon o amser i ddelio â'r holl bethau hyn ar hyn o bryd. Eich gwaith chi yw hynny.

Ysgol Enfys, AA uwchradd

Roedd y data o'r arolwg yn dangos bod gwahaniaethau arwyddocaol rhwng safbwyntiau athrawon am y cwricwlwm newydd a oedd yn dibynnu ar lefel eu hymwneud. Dywedodd yr athrawon hynny nad oeddent yn ymwneud yn uniongyrchol ag addysgu'r cwricwlwm newydd eu bod yn llai gwybodus a brwdfrydig o lawer yn ei gylch. Roedd tystiolaeth hefyd fod nifer o ysgolion sy'n bartneriaid i ysgolion Arloesi, nad ydynt yn cael cyllid ychwanegol i ddatblygu'r cwricwlwm, heb ddechrau paratoi eto ar gyfer y cwricwlwm newydd. Roedd athrawon a gyfwelwyd yn teimlo bod yr ysgolion hyn yn aros i weld beth fydd yn digwydd:

Rwy'n credu mai eu safbwynt nhw yw y byddan nhw'n gwylio i weld beth fydd yn digwydd. Oherwydd rwy'n credu bod rhai pobl yn dal i feddwl... dydyn nhw ddim yn meddwl y bydd y [diwygiadau] yn digwydd.

Ysgol Banwen, AA uwchradd

Hyblygrwydd ac atebolrwydd. Fel y nodwyd uchod, mae nifer o athrawon yn credu bod y cwricwlwm newydd yn cynnig mwy o hyblygrwydd. Hwn oedd un o'r gobeithion a grybwyllwyd amlaf gan athrawon mewn perthynas â'r cwricwlwm newydd. Mae perthynas gymhleth rhwng y cysyniadau o ryddid, ymreolaeth a hyblygrwydd sy'n anodd ei datrys. Yn aml roedd y term hyblygrwydd a'r cysyniad o ymreolaeth yn

cael eu defnyddio fel pe baent yn gyfystyr ac roedd hyn yn cael ei weld yn ei dro yn rhywbeth a oedd yn golygu llai o reoli neu fonitro ar athrawon. Teimlai athrawon nad oedd sylw yn cael ei roi i'w barn broffesiynol yn y data a ddefnyddid ar y pryd i werthuso eu perfformiad. Disgrifiodd athrawon y pethau hyn yn eu hymateb i gwestiwn yn yr arolwg am eu gobeithion:

Mwy o ymreolaeth i athrawon. System addysg nad yw'n cael ei gyrru gan ddata i gymaint o raddau.

Rhoi mwy o ymreolaeth i staff yn eu proffesiwn a pheidio â chael eu llethu gan ddata.

Roedd y canfyddiadau'n dangos bod modd hybu'r ymdeimlad o berchenogaeth broffesiynol ar y cwricwlwm newydd ymysg athrawon drwy fabwysiadu'r model sybsidiaredd ar yr amod eu bod yn teimlo bod ganddynt ran yn y broses, eu bod yn gallu gwneud penderfyniadau am y dewis o gynnwys ac yn credu y bydd mwy o bwys yn cael ei roi ar eu barn wrth werthuso perfformiad addysgol mewn cyd-destun lle na fydd canlyniadau arholiad o reidrwydd yn brif ffon fesur.

Adfywio addysgu a gwella ansawdd

Yr ail elfen yn y sail resymegol dros sybsidiaredd yw y bydd athrawon, o gael mwy o ymdeimlad o berchenogaeth broffesiynol ar y diwygiadau, yn gwneud mwy o ymdrech i wella ansawdd eu haddysgu. Bydd hyn, ynghyd â newidiadau mewn dysgu proffesiynol, yn arwain at weithlu addysgu mwy atgyrchol a fydd yn gallu gweithredu'r newidiadau mewn ffordd arloesol.

Addysgu drwy wersi sy'n ennyn diddordeb

Y gobaith a fynegwyd amlaf gan athrawon wrth ymateb i'r arolwg oedd y byddai'r diwygiadau'n arwain at addysgu a oedd yn fwy cyffrous ac yn ennyn mwy o ddiddordeb. Mae'n ymddangos bod nifer mawr o athrawon yn credu y byddai profiadau disgyblion yn gwella o ganlyniad i roi hyblygrwydd i athrawon. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffordd o weld cwricwlwm newydd fel gwaredigaeth rhag y cwricwlwm presennol sy'n cael ei weld yn un gorlawn a chyfarwyddol. Mae sylwadau athrawon hefyd yn dangos eu bod yn hyderus o ran gwybod beth fydd yn ennyn diddordeb mewn disgyblion, ac roedd nifer o'r athrawon a holwyd yn adlewyrchu'r syniadau hyn yn eu gobeithion am y newidiadau:

Er mwyn creu amgylcheddau dysgu a fydd yn ennyn cariad at ddysgu ac awydd i ddysgu a gwella mewn disgyblion.

Er mwyn gwneud dysgu'n hwyl a chael mwy gan y plant.

Rwy'n gobeithio y bydd yn adfywio addysg ac yn caniatáu mwy o greadigedd yn yr ystafell ddosbarth.

Dulliau arloesi parod mewn ysgolion arloesol

Mae'n bosibl nad yw'r awydd i fentro ac arloesi a fynegwyd yn y datganiadau hyn yn llawn adlewyrchu'r cyfyngiadau sydd ar alluoedd athrawon i arloesi wrth wynebu

pwysau bywyd pob dydd yn yr ysgol. Ym mron pob achos, pan holwyd athrawon mewn cyfweliad am beth roeddent yn ei wneud yn yr ystafell ddosbarth i adlewyrchu datblygiad y cwricwlwm newydd, byddent yn dechrau drwy ddisgrifio techneg neu ddull parod roeddent yn ei ddefnyddio. Roedd y rhain yn cael eu gweld yn bethau a oedd yn gyson â'r cwricwlwm newydd neu'n adlewyrchu'r cyfeiriad roedd yn mynd iddo mewn ffordd benodol. Roedd y rhain yn amrywio o ddulliau addysgegol (dysgu drwy ymholi), i ffyrdd o reoli cynnwys (dull meistrolaeth), i ymdrechion i newid diwyllianau dysgu ar draws yr ysgol (meddylfryd twf). Roedd data o'r arolwg yn dangos bod mwyafrif yr athrawon mewn ysgolion Arloesi wedi dilyn hyfforddiant yn y 12 mis diwethaf mewn dull neu dechneg addysgegol: cyfeiriwyd at fwy na 40 o wahanol ddulliau. Fodd bynnag, mae'n ymddangos mai prin yw'r ymwybyddiaeth bod cefndir damcaniaethol penodol i bob un o'r rhain a phan ofynnwyd yn yr arolwg i athrawon egluro'r berthynas rhwng y dull a'r cwricwlwm newydd, ni chafwyd yr un ymateb.

Lle roedd athrawon a gyfwelwyd wedi sôn am wneud pethau newydd gyda disgyblion, byddent yn cyfeirio gan amlaf at ddiwrnodau dysgu i'r ysgol gyfan a darparu cyfleoedd i ddysgu drwy brofiad:

Roedd y plant am ddysgu am y cae ffair, ond roedden ni'n gwybod bod nifer o'r plant heb fod mewn cae ffair erioed felly daethon ni â chae ffair i'r ysgol. Felly roedden ni'n gwybod wedyn fod pob un o'r plant wedi cael y profiad hwnnw.

Ysgol Tanwen, AA cynradd

Er nodi bod y pethau hyn yn darparu'r mathau o gyfleoedd dysgu diddorol a rhyngddisgyblaethol sy'n gyson â'r cwricwlwm newydd, roedd nifer o athrawon yn pryderu a fyddai ysgolion yn gallu parhau i ariannu'r rhain os na fyddai adnoddau ychwanegol yn cael eu darparu i ysgolion:

Er mwyn rhedeg cwricwlwm yn null Donaldson yn dda, bydd arnoch chi angen mwy o amser ar gyfer cynllunio a pharatoi... os oes gennych chi bum gwers ar ôl ei gilydd mewn diwrnod, allwch chi ddim gwneud yr holl bethau ychwanegol hynny... dyw hi ddim yn ymarferol disgwyl hynny gan neb. Sut bydd hynny'n gweithio yn y tymor hwy?

Ysgol Enfys, athro/athrawes Uwchradd

I grynhoi, prin oedd y dystiolaeth bod athrawon yn teimlo dim heblaw cyffro ynghylch y posibilrwydd o gael mwy o ryddid o dan y cwricwlwm newydd i arbrofi â dulliau addysgu newydd. Cymaint yw'r pwysau ar athrawon fel bod nifer mawr ohonynt yn troi at fodolau a dulliau parod i'w defnyddio yn yr ystafell ddosbarth neu fentrau drud ar gyfer yr ysgol gyfan, yn hytrach na chymryd rhan mewn cynllunio addysgegol atgyrchol. Mae'n anodd gwerthuso'r graddau y mae'r rhain yn gyson â'r cwricwlwm newydd, nac a fydd rhai o'r dulliau hyn yn gynaliadwy dros y tymor hir.

Y gallu i ymateb i anghenion lleol a chenedlaethol

Un o'r dadleuon o blaid y model sybsidiaredd ar gyfer diwygio'r cwricwlwm yw y bydd yn cymell athrawon i fod yn fwy ymatebol drwy eu haddysgu i anghenion lleol a chenedlaethol. Mae rhagdybiaeth bod yr hyn sy'n cael ei gyfrif yn ffordd dda i baratoi pobl ifanc ar gyfer cyflogaeth yn rhywbeth sy'n cael ei ddiffinio orau ar y lefel leol.

Mae pedwar diben y cwricwlwm newydd yn cynnwys termau sy'n adlewyrchu sgiliau cyflogadwyedd cydnabyddedig ('hyder', 'creadigedd'), yn ogystal â thermau sy'n cael eu hystyried yn gadarnhaol ar gyfer cymdeithas sifil yn gyffredinol ('uchelgais', 'iach'). Roedd athrawon yn adlewyrchu'r dyhead hwn:

Rhaid i chi edrych allan at y gymuned leol a'r gymuned ehangach er mwyn cyflawni'r Pedwar Diben, onid rhaid? Felly mae'n eich gorfodi i wneud hynny bron iawn.

Ysgol Deri, athrawon

Roedd yn ymddangos hefyd fod athrawon yn gweld eu rôl wrth lunio'r cwricwlwm newydd yng nghyd-destun y themâu cyffredinol o fod yn berthnasol a pharatoi pobl ifanc yn well ar gyfer dysgu gydol oes mewn gwaith. Roedd yn ymddangos eu bod yn credu y byddai mwy o ryddid gan ysgolion i gynnig llwybrau galwedigaethol i rai o'u dysgwyr. Byddai'r safbwynt hwn yn codi'n aml mewn ymatebion gan athrawon i gwestiwn yn yr arolwg am eu gobeithion:

Y bydd yn fwy perthnasol i'r 'byd go iawn' fel y bydd gwell cyfle gan ddisgyblion i gael cyflogaeth neu hyfforddiant ychwanegol.

Bydd yn eu paratoi i gymryd rhan mewn cymdeithas a dod yn gyflogadwy.

Er hynny, roedd nifer o athrawon yn pryderu hefyd, oherwydd y newid ffocws roeddent yn ei weld, a hefyd oherwydd yr ymreolaeth gynyddol mewn ysgolion, y byddai rhai dysgwyr yn methu â dysgu gwybodaeth werthfawr sy'n gysylltiedig â phynciau:

Bydd gwybodaeth yn dod yn ail a bydd profiadau a 'sgiliau trosglwyddadwy' yn cael y prif sylw. Rwy'n ofni y bydd y bylchau rhwng plant breintiedig a phlant llai breintiedig yn cynyddu wedyn.

Na fydd yn cysylltu â gwaith ar gyfer TGAU, Safon Uwch a Gradd ac y bydd llai o wybodaeth gan ddisgyblion.

Yn ogystal â hyn, mae tystiolaeth yn awgrymu bod hyd yn oed yr ysgolion hynny sy'n awyddus i ddarparu ffocws mwy 'perthnasol', i ymgysylltu â rhieni eu disgyblion a busnesau lleol, wedi ei chael yn anodd cyflawni hyn. Heb gysylltiadau cryf o'r fath, mae'n anodd gweld sut bydd dealltwriaeth athrawon o faterion lleol a chenedlaethol yn cael ei meithrin. Ar ben hynny, mae angen gofyn cwestiynau ynghylch arbenigedd athrawon mewn perthynas ag adnabod a datblygu sgiliau cyflogadwyedd, gan nad yw hyn yn brif rôl yng ngolwg nifer mawr ohonynt.

Mae amrywioldeb yn cynyddu wrth ganolbwyntio ar berthnasedd

Un mater sy'n cael ei awgrymu gan rai data uchod yw y bydd unrhyw bwyslais ar berthnasedd sy'n ffurfio ar lefel leol yn cynyddu'r amrywioldeb rhwng ysgolion. Roedd nifer mawr o athrawon yn deall bod enillion a cholledion gyda phob cwricwlwm. Er eu bod yn cydnabod hyn, roeddent yn fwy petrus wrth ystyried eu gallu i werthuso'r enillion a cholledion hyn eu hunain. Gellir gweld hyn mewn perthynas â'r drafodaeth ynghylch sut byddai'r newidiadau'n gallu effeithio ar wahanol grwpiau o ddysgwyr. Gan mwyaf, roedd athrawon cynradd yn gweld y byddai'r cwricwlwm newydd o fudd penodol i ddisgyblion llai galluog am ei fod yn rhoi mwy o sylw i brofiadau

ac elfennau ymarferol. Yn hyn o beth, roedd disgyblion uchel eu gallu yn profi rhwystredigaeth oherwydd yr hyn roeddent yn ei weld yn ddiffyg her. Fodd bynnag, er bod rhai athrawon uwchradd wedi dweud y byddai'r cwricwlwm newydd o fudd i ddisgyblion llai galluog, yn bennaf oherwydd y teimlad y byddai'r cynnwys yn gallu bod yn fwy perthnasol a diddorol, roedd eraill wedi dweud y byddai disgyblion mwy galluog yn ffynnu wrth brofi'r rhyddid i ddewis sut byddent yn ymdrin â thasgau. Mewn cyferbyniad â hyn, teimlwyd bod angen mwy o gymorth ar ddisgyblion llai galluog ac y byddent yn ei chael yn anodd delio â'r dewis hwn:

Rwyf wedi gweld bod rhaid i mi godi sgaffaldiau ar gyfer y disgyblion llai galluog, a rhoi mwy o gyfarwyddyd iddyn nhw. Felly mae llawer mwy o addysg un i un. Ond mae disgyblion mwy abl a thalentog yn ffynnu, wrth gwrs, am eu bod nhw'n teimlo eu bod yn gallu cyrchu'r nod ac ymdrin â phethau yn eu ffordd eu hunain.

Ysgol Banwen, athro/athrawes uwchradd

Roedd y plant llai galluog yn ei gael yn llesol iawn; roedden nhw wrth eu bodd ag e. Roedd y plant mwy galluog yn ei gasáu!

Ysgol Seren, athro/athrawes gynradd

Mae hyn yn dangos ei bod yn anodd rheoli hyblygrwydd er mwyn gallu ymateb i anghenion lleol. Mae'n anodd rhag-weld a fydd digon o graffter neu wrthrychedd gan athrawon i sicrhau na fydd y gallu i ymateb i alwadau lleol a chenedlaethol yn arwain at ddarpariaeth amrywiol a fydd yn amharu ar rai grwpiau o ddysgwyr neu'n cyfyngu'r mynediad at rai mathau o wybodaeth sydd gan grwpiau penodol.

Hyder i barhau â'r broses diwygio dros amser

Y budd olaf a geir o fodel sybsidiaredd, yn ôl yr awgrym mewn cyflwyniadau a dogfennau sy'n ymwneud â diwygio'r cwricwlwm, yw y bydd yn meithrin hyder ymysg athrawon mewn ffordd a fydd yn helpu i barhau ag ymdrechion i ddatblygu'r cwricwlwm dros amser. Un o'r heriau a wynebir wrth ddiwygio cwricwla yw bod y brwdfrydedd a gweithgarwch cychwynnol yn lleihau cyn integreiddio newidiadau pwysig mewn ymarfer yn niwylliannau'r ysgol (Sinnema, 2011). Mae'r data o waith ymchwil yn awgrymu bod nifer mawr o athrawon yn frwdfrydig ynghylch y diwygiadau ac yn obeithiol am eu potensial, fel y nodwyd uchod, ond bod llai o hyder yn y ffordd y bydd y newidiadau'n cael eu gweithredu ac mae hyn yn codi cwestiynau am y model sybsidiaredd sy'n cael ei fabwysiadu.

Yn unfryd wrth wrthod y cwricwlwm presennol

Yr hyn a oedd yn gyffredin i fwyafrif yr athrawon a gymerodd ran yn yr ymchwil oedd eu naratif am yr hyn a oedd o'i le ar y cwricwlwm presennol a pham y mae angen cwricwlwm newydd. Roedd yn ymddangos bod athrawon yn ystyried bod y dull diwygio o'r gwaelod i fyny yn rhoi dalen lân iddynt i gofnodi eu gwrthwynebiad i agweddau ar y cwricwlwm presennol yn gyntaf. Ym mron pob un o'r cyfweiliadau, roedd sylwadau athrawon wedi'u geirio yn nhermau'r ffordd roedd y diwygiadau'n cynnig cyfle i symud oddi wrth y cwricwlwm presennol. Yn y data o'r arolwg,

roedd nifer o athrawon wedi mynegi gobeithion ac ofnau am y cwricwlwm newydd mewn perthynas â symud oddi wrth y model presennol a'i osgoi yn y dyfodol. Yn benodol, teimlai athrawon fod addysg ysgol yn profi effeithiau niweidiol o ganlyniad i ddylanwad systemau atebolrwydd, pwysau o asesu ar ddisgyblion a meysydd llafur gorlawn a chyfarwyddol iawn a oedd heb fod yn berthnasol i bobl ifanc mewn llawer achos:

Ers amser maith, mae ysgolion wedi bod yn ffatrioedd arholiadau ac rydyn ni'n eu paratoi ar gyfer arholiadau drwy'r amser. Ac mae tuedd i'r disgyblion ddod i arfer â bwyd llwy o'r fath.

Ysgol Bedwyn, athro/athrawes uwchradd

Mae yna blant sydd wedi profi effeithiau niweidiol gan y cwricwlwm presennol. Mae gennyn ni blant na wnaiff gydymffurfio â'r arddulliau dysgu neu strategaethau dysgu arferol a rhaid i chi ei addasu a'i newid i'w wneud yn addas i'r plentyn hwnnw.

Ysgol Tanwen, athro/athrawes gynradd

Yn rhy dda i fod yn wir

Roedd y gobeithion y byddai'r diwygiadau'n gwaredu ysgolion rhag y diffygion hyn yn y system bresennol yn cael eu gwrthbwysu gan ofnau bod y broses diwygio yn rhy dda i fod yn wir:

Mae hi mor eang ac uchelgeisiol fel ei bod yn troi'n gyfaddawd, heb ffocws nac arweinyddiaeth.

Rwy'n ofni na fyddwn ni'n gallu pontio'r bwlch rhwng y weledigaeth a realiti'r ystafell ddosbarth. Gallaf i weld y bydd hyn yn broblem, efallai, os na fydd yr athrawon presennol yn cael amser, cyfleoedd ar gyfer ymchwilio a dysgu proffesiynol a negeseuon/canllawiau clir i wireddu'r weledigaeth. Rwy'n ofni, os na fyddwn yn sicrhau bod y pethau uchod ar gael, y bydd athrawon yn troi'n ôl at ddiwylliant o 'dicio blychau' a rhoi sylw i gynnwys, am mai hynny sy'n gyfarwydd iddyn nhw.

Ymatebion i'r arolwg

Ysgogwyd tensiynau rhwng gobeithion ac ofnau gan ymdeimlad y bydd y gweithlu addysgu presennol yn ei chael yn anodd addasu i'r newidiadau arfaethedig. Roedd nifer o'r AAau wedi disgrifio'r ffordd roeddent wedi cau'r bwlch yn eu gwybodaeth a'u cymhwysedd proffesiynol eu hunain er mwyn teimlo'n hyderus wrth ymgymryd â'r dasg o lunio cwricwlwm sy'n hanfodol i'r diwygiadau. Roeddent yn galw hyn yn 'newid meddylfryd' roeddent wedi gorfod mynd drwyddo, gan fynegi pryder ynghylch sut bydd eu cydathrawon yn profi hyn:

Mae hyn yn anodd gan ei fod yn golygu newid eich meddylfryd yn hytrach nag adnoddau.

A oes ganddyn nhw'r sgiliau sydd eu hangen i wneud y pethau hynny oherwydd dydyn ni erioed wedi addysgu yn y ffordd honno. Allwch chi ddim newid meddylfryd proffesiwn mor sydyn. Bydd hi'n cymryd cenhedlaeth bron i ailaddysgu'r proffesiwn hwnnw i wneud pethau'n wahanol.

Ysgol Deri, Arweinydd Arloesi

Os na cheir hyfforddiant a chymorth digonol i feithrin y newid persbectif hwn, roedd nifer o athrawon yn ofni y byddai eu cydathrawon yn parhau i addysgu fel yr oeddent wedi gwneud erioed:

Bydd yr addysgu traddodiadol hwmw'n parhau a bydd yn fwyfwy anodd ei newid.

Mae athrawon yn ceisio ei gyflawni yn yr hen ffordd. Mae angen i athrawon gael ffordd wahanol o edrych ar addysgu a dysgu.

Ymatebion i'r arolwg

Hyfforddiant a chymorth

Fel y nodwyd uchod, roedd athrawon wedi mynegi'r farn yn aml mai buddsoddi mewn hyfforddiant proffesiynol ac adnoddau yw'r allwedd i lwyddiant y cwricwlwm newydd:

Bydd athrawon cydwybodol yn ei chael yn amhosibl delio â'r llwyth gwaith ac ni fyddant yn cael digon o amser i gynllunio a pharatoi er mwyn darparu'r cwricwlwm yn y ffordd y mae i fod i gael ei addysgu.

Ni fydd digon o gyllid ar gyfer hyfforddiant ac adnoddau.

Ymatebion i'r arolwg

Mae hyder yr athrawon yn dibynnu'n fawr ar y graddau y maent yn credu y bydd cymorth digonol ar gael i'r proffesiwn ar ffurf amser i baratoi ffyrdd newydd o addysgu; hyfforddiant i'w helpu i ddod yn 'llunwyr' cwricwlwm cymwys sy'n gallu ymateb yn briodol i anghenion y disgyblion; a chyllid digonol i ganiatáu i ysgolion gynnig mwy o'r dysgu drwy brofiad y mae nifer ohonynt yn ei weld yn rhan hanfodol o'r newidiadau. Yn hytrach na bod y model sybsidiaredd yn arwain at fwy o hyder, rydym yn gweld yn y data drwyddynt draw mai po fwyaf yr ystyriaeth roedd athrawon yn ei rhoi i'r newidiadau penodol a'r adnoddau y byddai eu hangen, mwyaf oedd yr ansicrwydd roeddent yn ei deimlo am y diwygiadau.

Trafodaeth

Mae'r canfyddiadau a ddisgrifiwyd uchod yn dangos bod nifer mawr o athrawon yn credu y bydd y cwricwlwm newydd yn rhoi mwy o ryddid iddynt o ran dewis cynnwys y pynciau a'r profiadau dysgu y gallant eu darparu i ddisgyblion. Maent yn gweld mai un o nodau'r diwygiadau yw gwneud y cwricwlwm yn llai cyfarwyddol a rhoi mwy o gyfle iddynt wneud eu gwersi'n berthnasol i ddi-ddordebau disgyblion. Mae'n ymddangos hefyd fod pwysigrwydd y dibenion craidd yn gosod cyfrifoldeb ar ysgolion i ddarparu cyfleoedd i ddisgywyr feithrin ymagweddau a nodweddion personol. Ni ellir gwybod beth fydd effaith hyn nes bydd cohort o fyfyrwyr wedi mynd drwy'r system o un pen i'r llall. Wrth ddod i'r canfyddiadau, ceisiwyd gweld a yw athrawon yn ymateb i heriau'r broses diwygio mewn ffyrdd sy'n gyson â'r sail resymegol dros fabwysiadu model sybsidiaredd. Mae nifer o gwestiynau'n codi, a drafodir yma, sy'n tynnu sylw at broblemau difrifol posibl ynglŷn â'r broses diwygio. A yw'r broses hyd yma wedi arwain at fwy o ymdeimlad o broffesiynoldeb ymysg athrawon, sydd wedi helpu i leihau'r gwrthwynebiad i'r newidiadau? A yw athrawon yn dweud bod eu hymarfer addysgu yn cael ei adfywio? A yw'n ymddangos bod athrawon yn barod ac yn alluog i ymateb i anghenion lleol a chenedlaethol mewn ffordd sy'n debygol o godi

dyheadau disgyblion? Ac a oes unrhyw arwydd bod y broses yn arwain at fwy o hyder yn y cwricwlwm newydd ymysg athrawon?

Proffesiynoldeb a pherchenogaeth

Y cysyniad o broffesiynoldeb yw un lle mae athrawon yn cymryd mwy o gyfrifoldeb dros ddatblygu'r cwricwlwm (Llywodraeth Cymru, 2019, tudalen 20, 3.20). Mae hyn yn awgrymu cydnabyddiaeth bod penderfynu gan athrawon yn bwysig ond nid yw'r un o'r dogfennau ar ddiwygio'r cwricwlwm yn nodi'n glir beth fydd y ffiniau a'r cyfyngiadau ar hyn. O'i fynegi'n gadarnhaol, gellir gweld bod proffesiynoldeb yn hyrwyddo 'perchenogaeth'. Po fwyaf bydd athrawon yn teimlo bod penderfyniadau'n cael eu hymddiried iddynt, mwyaf fyddant yn teimlo bod y cwricwlwm newydd yn eiddo iddyn nhw fel y bydd eu hymroddiad iddo'n cynyddu. Mae'r pwysigrwydd o feithrin ymdeimlad o berchenogaeth er mwyn rheoli newid yn llwyddiannus yn cael ei drafod mewn llenyddiaeth ar fusnes (James a Connolly, 2000; Collins, 2001; Everard *et al.*, 2004). Mae'r ddamcaniaeth yn dal bod perchenogaeth a chyfranogiad mewn penderfyniadau yn arwain at fwy o weithredu cyfrifol, tra bydd diffyg cyfranogi yn gallu arwain at sinigiaeth (Wanous *et al.*, 2000).

Bydd addysgu yn fwy tebygol o wella os bydd athrawon yn teimlo eu bod yn gorfod newid eu harferion o ganlyniad i ddiwygiadau y maen nhw wedi cyfrannu at eu datblygu ac yn teimlo eu bod yn berchen arnynt. Mae'r sail resymegol i hyn yn gredadwy ond mae'n awgrymu y bydd pob athro ac athrawes yn teimlo perchenogaeth o'r fath ac y byddai arfer y berchenogaeth honno'n arwain at newidiadau a fydd yn cael eu gweld yn welliannau gan bawb. Mae dau fater yn aneglur. Yn gyntaf, heb gael disgrifiad mwy manwl o'r ffordd y bydd llwyddiant myfyrwyr yn yr ysgol yn cael ei fesur, bydd yr ymadrodd 'cwrdd ag anghenion yr holl ddysgwyr' yn aros yn annelwig ac yn broblemus. Beth fyddai'r canlyniad os oedd rhai athrawon yn credu bod modd cyflawni'r amcan hwn heb hyfforddi uniongyrchol a heb werthusiad ffurfiol o'r wybodaeth a sgiliau a ddysgwyd gan y disgybl? Mae nifer mawr o athrawon yn credu y bydd safonau cenedlaethol yn cael eu gosod ac y bydd angen i ddysgwyr weithio ar gyfer rhyw fath o asesiad safonol. Y rhain fyddai'n gosod y paramedrau ar gyfer arfer barn broffesiynol gan athrawon. Yn ail, nid oes unrhyw eglurder ynghylch graddau'r cyfrifoldeb a roddir i'r athro neu athrawes unigol a graddau'r cyfrifoldeb a roddir i'r ysgol. Mae rhai athrawon yn gweithio mewn ysgolion lle mae hierarchaethau mewnol cadarn yn rheoli cynnwys ac arferion addysgu. Pa werth sydd mewn cael gwybod y bydd penderfyniadau'n cael eu hymddiried i chi ynghylch sut i gwrdd ag anghenion dysgwyr, os mai aelod staff uwch yn yr ysgol fydd yn gwneud y penderfyniadau mewn gwirionedd ac yn disgwyl i chi eu dilyn?

Os yw athrawon yn credu y bydd eu mewnbn yn siapio'r cwricwlwm newydd, yna mae'n bosibl y bydd eu hymdeimlad o broffesiynoldeb yn cynyddu. Mae'n ymddangos mai lefel y rhyddid sydd gan athrawon a lefel eu hymwneud â llunio'r cwricwlwm yng nghyd-destun yr ysgol fydd yn pennu'r graddau y mae hyn yn digwydd ac yn arwain at ymdeimlad o berchenogaeth. Fodd bynnag, mae hefyd yn glir bod yr ymdeimlad o berchenogaeth yn dibynnu ar ba un a fydd athrawon yn gweld newid sylfaenol yn y ffordd o werthuso perfformiad eu disgyblion a'u perfformiad eu ...hunain: mae'n bosibl... bosibl y gwelir ei bod yn anodd delio â'r problemau a all godi wrth geisio cysoni hyblygrwydd i athrawon â safonau atebolrwydd cenedlaethol.

Adfywio addysgu a newid rôl athrawon

Nid yw'r syniad bod sybsidiaredd yn sbarduno arloesi yn un newydd ond mae'r rhyddid i arloesi'n ddbynnol iawn ar briodweddau'r amgylchedd lle mae person neu wladwriaeth yn gallu gweithio. Gofynnir i athrawon weithredu o fewn cyd-destunau lle maent o dan bwysau mawr a lle mae galwadau mawr ar eu hamser. Mae'r cyfle sydd ar gael i ddatblygu dulliau addysgu newydd yn cael ei gyfyngu gan y cyd-destunau hyn (Priestley *et al.*, 2012). Mae tystiolaeth yn awgrymu ei bod yn bosibl y bydd nifer mawr o athrawon yn troi yn y pen draw at ddulliau parod a mentrau addysgegol sydd wedi'u hailfrandio i adlewyrchu'r cwricwlwm newydd. Fodd bynnag, mae'r data yn dangos hefyd fod diffyg trafodaeth ynghylch y lle sydd gan wybodaeth yn y cwricwlwm neu ddamcaniaethau dysgu. Mae hyn yn creu sefyllfa lle mae'n bosibl y bydd y pwysau ar athrawon yn drech na'u dyheadau i sicrhau bod arferion addysgu yn gwella ar gyfer yr holl ddysgwyr drwy weithredu'r cwricwlwm newydd mewn ffordd gydlynol.

Yn ogystal â hyn, er ei bod yn ymddangos bod nifer mawr o athrawon yn croesawu mwy o ryddid a hyblygrwydd mewn perthynas â dewis topigau a meithrin diddordeb myfyrwyr mewn gwybodaeth pwnc, mae ymchwil ddiweddar ar athrawon hanes yn Lloegr, a gafodd ryddid helaeth i ddewis topigau i'w hastudio gyda myfyrwyr, wedi dangos mai ychydig o'r athrawon a oedd wedi ystyried perthnasedd, neu 'ddefnyddioldeb', eu penderfyniadau ar gyfer pobl ifanc (Harris a Reynolds, 2018). Mae'n bosibl y bydd athrawon a gafodd eu hyfforddi a'u trwytho mewn dulliau meddwl sy'n gysylltiedig â'u priod ddisgyblaethau arbenigol yn ei chael yn anodd gweld pethau o safbwynt pobl ifanc sy'n byw o ddydd i ddydd o dan ddylanwad ffactorau cymdeithasolegol amrywiol a chymhleth. Ar un ystyr, mae'n debygol y bydd y rhagdybiaethau sydd gan athrawon am berthnasedd y cwricwlwm yn adlewyrchu eu dealltwriaeth eu hunain o dan ddylanwad eu cefndir proffesiynol (Bernstein, 2000; Rata, 2016).

Ymateb i anghenion lleol a chenedlaethol

Mae'r sail resymegol dros y gred bod sybsidiaredd yn debygol o arwain at fwy o allu yn y system addysg i ymateb i anghenion lleol a chenedlaethol yn dibynnu mewn sawl ffordd ar gryfder y cysylltiadau rhwng ysgolion a'u cymunedau lleol, yn cynnwys cysylltiadau â rhieni. Er bod nifer mawr o ysgolion yn gwybod ei bod yn fuddiol cynnwys rhieni wrth helpu disgyblion i ddysgu (Castro *et al.*, 2015) ac y bydd y cwricwlwm newydd, mewn egwyddor, yn caniatáu iddynt elwa'n fwy o ymwneud ac ymgysylltu â rhieni, mae tystiolaeth yn awgrymu nad yw hyd yn oed yr athrawon sy'n arwain ar ddiwygio'r cwricwlwm wedi dod o hyd i ffyrdd i gyflawni hyn eto.

Mae rhagdybiaeth yn y sail resymegol hon fod cynyddu'r agenda ar gyflogadwyedd mewn ysgolion yn beth da ac y bydd yr holl athrawon yn ei groesawu. Mae Ainley (2016) wedi dadlau bod y ffocws hwn ar sgiliau cyflogadwyedd wedi'i seilio ar ragdybiaethau anghywir am y farchnad lafur. Mewn gwirionedd, prin iawn yw'r swyddi sydd ar gael i bobl ifanc am nad yw cyflogwyr am eu cyflogi. Mae nifer mawr o raddedigion, hyd yn oed, yn ei chael yn anodd dod o hyd i swydd o unrhyw fath, heb sôn am un sy'n gymesur â'u cymwysterau. Er bod y syniad o wneud addysg ysgol yn fwy 'perthnasol' yn cael ei ystyried yn beth da, at ei gilydd, yn gyffredinol, mae

nifer sylweddol o athrawon yn pryderu y bydd llai o sylw i wybodaeth ac y byddai hyn yn gallu amharu ar allu disgyblion i symud ymlaen i addysg ôl-16. Ar ben hynny, heb ganllawiau clir ynghylch beth sydd i'w gyfrif yn anghenion lleol a chenedlaethol dilys a sut bydd athrawon yn penderfynu ar y rhain, mae'n debygol y bydd yr agwedd hon ar y diwygiadau yn arwain at amrywioldeb sylweddol rhwng ysgolion. Mae hwn yn fater arall sy'n peri pryder i athrawon ac mae'n ymddangos ei fod yn cyfrannu at ansicrwydd sy'n parhau ymysg llawer o'r rheini sy'n gweithio mewn ysgolion Arloesi am y buddion y gellir eu cael o'r newidiadau hyn.

Sybsidiaredd

Mae'n werth ystyried y problemau a all godi pan fydd egwyddor sybsidiaredd, ar ôl derbyn ei bod yn bwysig, yn cael ei gwanhau neu ei diystyru. Yn 2015, dechreuodd Prif Weinidog y DU ar y pryd, David Cameron ar genhadaeth ddiplomyyddol i ennill consesiynau gan yr Undeb Ewropeaidd (UE) gan obeithio y byddai hyn yn tawelu anfodlonrwydd y nifer mawr o Ewrosgeptigiaid yn ei blaid. Pen draw'r ymdrechion hyn oedd anfon llythyr at Lywydd yr UE Donald Tusk lle roedd Cameron yn dadlau y dylai'r UE ddilyn ei egwyddor sybsidiaredd ei hun yn fwy trwyadl. Cyfeiriodd at gynnig gan yr Iseldiroedd o blaid gadael mwy o feysydd polisi i'w penderfynu gan wladwriaethau sofran, o blaid ailddehongli athrawiaeth yr 'undeb bythol agosach' ac o blaid 'hyblygrwydd', yn enwedig mewn perthynas â'r ffordd o greu cyfraith yr UE. Methodd yr UE â chynnig ymateb boddhaol i apêl Cameron a mabwysiadwyd addewid ym maniffesto'r Ceidwadwyr i gynnal refferendwm 'Aros-Gadael', a arweiniodd at bleidlais o blaid ymadael â'r UE a enillwyd o fwyafrif bach.

Mae Jean-Pierre Danthine (2017) yn awgrymu bod modd olrhain y dadrithiad â'r UE yn nifer o wledydd yr UE at fethiant yr Undeb i gymhwysu'r 'egwyddor sybsidiaredd a ymgorfforwyd yng Nghytuniad Maastricht'. Mae'n dangos bod sawl agwedd ar bolisi Ewropeaidd wedi'i seilio ar ganoli ac nad yw'n syndod, wedi i'r awydd am sofraniaeth genedlaethol ailgodi mewn nifer o wledydd, fod nifer o gwestiynau'n cael eu gofyn ynghylch pam nad yw egwyddor sybsidiaredd wedi bod yn ddigon i wrthbwysu hynny. Yn ei eiriau ef, "Ond mewn nifer o feysydd eraill, ni ellir ei gyfiawnhau (canoli) ac yn yr achosion hynny mae'n ymddangos bod y methiant i drin egwyddor sybsidiaredd yn llythrennol wedi cael canlyniadau negyddol iawn." Cafwyd y methiant hwn am nad oedd eglurder ynghylch y ffordd y dylai'r egwyddor weithio a heb hynny roedd canoli wedi cael y lle blaenaf mewn penderfyniadau. Mae Danthine yn dadlau bod sybsidiaredd yn gosod y baich profi ar y rheini sydd o blaid canoli:

Yn benodol, mae sybsidiaredd yn golygu mai'r rheini sy'n cynnig canoli yw'r rhai sy'n gorfod profi bod cyfiawnhad dros integreiddio pellach. Os methant â dangos bod dadl o blaid hynny, mae sybsidiaredd yn golygu bod y pŵerau i aros yn ddatganoledig.

Yng nghyd-destun diwygio'r cwricwlwm, mae egwyddor sybsidiaredd wedi bod yn syniad dylanwadol ymysg athrawon. Mae wedi meithrin hyder yn y broses diwygio a'r gobaith y bydd y dirwedd addysgol yng Nghymru yn newid yn sylfaenol, y bydd llais athrawon yn cael ei glywed ac y byddant yn cael y rhyddid y maent yn ei chwennych i ddarparu cyfleoedd dysgu mwy cyffrous a diddorol i'w dysgwyr. Ond yn y data drwyddynt draw, rydym wedi gweld amheuan a thensiynau'n codi na fydd unrhyw

raddau o sybsidiaredd yn debygol o’u lliniaru’n ddigonol. Ni chafwyd polisi clir ar y graddau o hyblygrwydd neu ryddid a fydd gan ysgolion na pha faint o ymreolaeth ar gyfer penderfynu a gaiff athrawon dosbarth, nac yn wir pa systemau atebolrwydd a fydd ar waith. Mae’n glir bod sybsidiaredd wedi cael dylanwad mawr ar athrawon sy’n cymryd rhan ym mhroses diwygio’r cwricwlwm. Ond yn hytrach na bod yn arf effeithiol i hwyluso newid, mae’n ymddangos ei fod mewn perygl o greu tensiynau y gall fod yn anodd eu datrys.

Manylion am ariannu

Ariannwyd yr ymchwil gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru. Nid oedd rhif grant.

Gwrthdaro o ran buddiannau

Nid oes gwrthdaro buddiannau.

Gwybodaeth am leoliad daearyddol

Cymru, y DU.

Y data sydd ar gael

Gellir cael data o’r arolwg a thrawsgrifiadau wedi’u golygu o’r cyfweiliadau drwy wneud cais ac maent wedi’u storio ar weinyddion Prifysgol Caerdydd y gellir eu cyrraedd drwy WISERD. Cysylltwch â wiserd@cardiff.ac.uk.

Cydnabyddiaeth

Cefnogwyd yr ymchwil gyda chyllid gan HEFCW (Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru), a Sefydliad Ymchwil, Data a Methodoleg Gymdeithasol ac Economaidd Cymru (WISERD). Mae WISERD yn fenter ar y cyd rhwng Prifysgolion Aberystwyth, Bangor, Caerdydd, De Cymru ac Abertawe.

NODYN

¹ Defnyddir ffugenwau am yr holl ysgolion a gymerodd ran yn yr ymchwil.

Cyfeiriadau

- Ainley, P. (2016) *Betraying a generation: How education is failing young people* (Bristol, Policy Press).
- Bernstein, B. B. (2000) *Pedagogy, symbolic control, and identity: Theory, research, critique* (No. 4) (Rowman & Littlefield).
- Carozza, P. G. (2003) Subsidiarity as a structural principle of international human rights law, *American Journal of International Law*, 97(1), 38–79.
- Castro, M., Expósito-Casas, E., López-Martín, E., Lizasoain, L., Navarro-Asencio, E. a Gaviria, J. L. (2015) Parental involvement on student academic achievement: A meta-analysis, *Educational Research Review*, 14, 33–46.

- Chaplin, J. (1993) Subsidiarity and sphere sovereignty: Catholic and reformed conceptions of the role of the state, in: F. P. N. McHugh & S. M. Natale (Gol) *Things old and new: Catholic social teaching revisited* (University Press of Amer).
- Chaplin, J. (2014) Subsidiarity and social pluralism, in: M. Evans & A. Zimmermann (Gol) *Global perspectives on subsidiarity*, (cyf. 37) (Dordrecht, Springer).
- Collins, J. (2001) *Good to great* (Sydney, Random House).
- Constantin, S. (2008) Rethinking subsidiarity and the balance of powers in the EU in light of the Lisbon treaty and beyond, *Croatian Yearbook of European Law & Policy*, 4(4), 151–177.
- Danthine, J.-P. (2017) *Subsidiarity: The forgotten concept at the core of Europe's existential crisis* (VoxEu).
- Donaldson, G. (2015) *Dyfodol llywyddiannus: Adolygiad annibynnol o'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu yng Nghymru* (Caerdydd, Llywodraeth Cymru).
- Donaldson, G. (2016a) A systematic approach to curriculum reform in Wales, *Cylchgrawn Addysg Cymru/Wales Journal of Education*, 18(1), 7–20.
- Donaldson, G. (2016b) Professionalism and Governance. Papur a gyflwynwyd yng Nghynhadledd GCES ar Lywodraethu Addysg mewn Byd Cymhleth, Brwsel, 18 Hydref. Ar gael ar-lein yn: <https://www.slideshare.net/OECD/EDU/keynote-professionalism-and-governance>
- Everard, K. B., Morris, G. a Wilson, I. (2004) *Effective school management* (Thousand Oaks, CA, Sage).
- Gray, S. L., Scott, D. a Mehisto, P. (2018) A united and thriving Europe? A sociology of the European schools, in: S. H. Leaton Gray, D. Scott & P. Mehisto (Gol) *Curriculum reform in the European schools: towards a 21st century vision* (Palgrave Macmillan).
- Harris, R. a Reynolds, R. (2018) Exploring teachers' curriculum decision making: Insights from history education *Oxford Review of Education*, 44(2), 139–155.
- Horsley, T. (2012) Subsidiarity and the European Court of Justice: Missing pieces in the subsidiarity jigsaw? *JCMS: Journal of Common Market Studies*, 50(2), 267–282.
- James, C. a Connolly, U. (2000) *Effective change in schools* (London, Psychology Press).
- Llywodraeth Cymru. (2015) *Cwricwlwm i Gymru—cwricwlwm am oes* (Caerdydd, Grŵp Polisi Cyhoeddus ac Addysg).
- Llywodraeth Cymru. (2019) *Cenhadaeth ein Cenedl: Cwricwlwm Gweddnewidiol: Cynigion am fframwaith deddfwriaethol newydd*. Dogfen ymgynghori. Dyddiad cyhoeddi: 28 Ionawr 2019.
- Öberg, J. (2017) Subsidiarity as a limit to the exercise of EU competences, *Yearbook of European Law*, 36, 391–420.
- OECD. (2014) *Improving schools in Wales: An OECD perspective* (Paris, France, OECD).
- OECD. (2017) The Welsh Education Reform Journey: A rapid policy assessment. Ar gael ar-lein yn: <http://www.oecd.org/edu/The-Welsh-Education-Reform-Journey.pdf>
- Priestley, M., Edwards, R., Priestley, Andrea a Miller, K. (2012) Teacher agency in curriculum making: Agents of change and spaces for Manoeuvre, *Curriculum Inquiry*, 42(2), 191–214.
- Priestley, M., Minty, S. a Eager, M. (2014) School-based curriculum development in Scotland: Curriculum policy and enactment, *Pedagogy, Culture & Society*, 22(2), 189–211.
- Rata, E. (2016) A pedagogy of conceptual progression and the case for academic knowledge, *British Educational Research Journal*, 42(1), 168–184.
- Ryder, J. (2015) Being professional: accountability and authority in teachers' responses to science curriculum reform, *Studies in Science Education*, 51(1), 87–120.
- Sinnema, C. (2011) *Monitoring and evaluating curriculum implementation: Final evaluation report on the implementation of The New Zealand Curriculum 2008–2009* (New Zealand, Ministry of Education).
- Wanous, J. P., Reichers, A. E. a Austin, J. T. (2000) Cynicism about organizational change: Measurement, antecedents, and correlates, *Group & Organization Management*, 25(2), 132–153.